## Bwletin o Batagonia 6 – Pengwiniaid Magellan gan Twm Elias

Ar yr arfordir, ryw 100 km i'r de o Ddyffryn Camwy, mae Punta Tombo, sydd yn warchodfa natur arfordirol bwysig i fywyd gwyllt, ond yn arbennig i'r niferoedd enfawr o bengwiniaid Magellan *(Spheniscus magellanicus)* ddaw yno i nythu bob blwyddyn. Pengwin gweddol fychan yw'r Magellan, yn sefyll ryw 61-76 cm o daldra ac yn nythu mewn cyfres o nythfeydd ar hyd arfordir yr Aiannin cyn belled i'r gogledd Phenryn Valdez ger Porth Madryn. Yn Chile mae eu nythfeydd yn ymestyn ychydig pellach i'r gogledd.


Nythfa Punta Tombo yw'r fwyaf yn yr Ariannin ac amcannir i'w phoblogaeth amrywio yn arw dros y deugain mlynedd a fu. Amcanwyd bod tua miliwn o adar yma yn 1982, cyn i'r niferoedd gwympo'n drychinebus wedi hynny oherwydd gor-bysgota (= llai o fwyd i'r adar) a llygredd olew, i tua 400,000 yn 1999. Ers hynny, dynodwyd y môr oddiamgylch yn rhan o warchodfa'r pengwiniaid, ac mae'r niferoedd eto wedi cyrraedd oddeutu miliwn o adar.

Mae'n safle sy'n dennu llawer iawn o dwristiaid yn anterth y tymor nythu, ond pan ymwelon ni, ddechrau Ebrill 2022, roedd mwyafrif yr oedolion eisoes wedi ymadael am y gogledd lle byddent yn gaeafu am y 6 mis nesa oddiar arfordiroedd Wrwgwai a Brasil. Y cywion oedd ar ôl, yn gorffen bwrw'u manblu. Golwg ddigon bler ar y rhan fwyaf, a'r manblu brown yn chwythu i bobman yn y gwynt.

Roedd yn ddiwrnod poeth, a'r cywion yn gorweddian neu sefyllian yn y cysgod yn gysglyd i arbed egni. Fydden nhw ddim yn cael bwyd eto tan y byddent wedi gorffen bwrw'u manblu ac yn mynd i'r môr i ddal eu bwyd eu hunnain. Cyn diwedd Ebrill disgwylir y bydd y cwbwl wedi gadael am y môr.

Yn y ganolfan ddehonghi, cyn cychwyn ar ein taith rownd y warchodfa, oedd cyfrol Sbaenaidd ar fyd natur, oedd tua canrif a mwy oed, yn rhoi sylw i darddiad yr enw pengwin. '¿Por que se llaman Pinguinos?' (Pam yr enw Pingwin?). Cyfeiria at y 'navigantes ingleses' roddodd yr enw iddynt am fod yr adar yn debyg i'r 'GRAN ALCA', sef y carfil mawr gogleddol, neu'r 'pengwyn' gwreiddiol a gafodd ei enw oherwydd y patrwm du a gwyn ar ei ben.

Gwaetha'r modd, am na allai hedfan, ac yn hawdd ei ddal gan forwyr i'w fwyta, aeth y carfil mawr I ddifodiant (extinct) yn 1852.



¿ POR QUÉ
— SE LLAMAN —
PINGÜINOS ?

Por su parecido con el GRAN ALCA, ave no voladora ya extinguida del Hemisferio Norte, a la que los navegantes ingleses conocían como pengüins, por el color blanco y negro de su cabeza.

Cuando en el Siglo XVI los expedicionarios observaron aves similares en el Hemisferio Sur también las llamaron pengüins o pingüinos, aunque no estaban emparentadas.

El Gran Alca

Gwyddwn mai Francis Drake, wrth hwylio rownd y Penrhrhyn yn Awst 1578 oedd y ‘navigates ingleses’ dan sylw, ac i’r enw penguin ymddangos am y tro cyntaf yn llyfr log ei long, y Golden Hind: *‘numerous were the foule the Welchmen call Penguin’*.

Nid oedd Magellan, oedd y cyntaf i hwylio rownd y penrhyn, yn 1520, wedi rhoi enw ar yr adar hyn, ond yn ddiweddarach bu i’r math o bengwin sy’n nythu yn Punta Tombo gael ei enwi ar ei ôl ef, sef *Spheniscus magellanicus.*

Mabwysiadwyd yr enw pengwin (pen gwyn) gan sawl iaith drwy’r byd, sy’n gwneud yr enw hwn, o darddiad Cymraeg, yr enw Cymraeg mwyaf eang ei ddosbarthiad yn rhyngwladol.